OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1064 (Cy.110)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Pen–y–bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006

Wedi'i wneud - - 26th Mawrth 2006

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Gan fod Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Awst 2005 ar ei adolygiad o ran o'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen–y–bont ar Ogwr ynghyd â chynigion a luniwyd ganddo arnynt;

A chan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb newidiadau;

A chan fod mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent i'w harfer o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a Chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pen–y–bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006, sef y diwrnod penodedig at ddibenion Rheoliadau 1976, ac eithrio fod y Gorchymyn hwn, at y dibenion a osodir yn Rheoliad 4 o Reoliadau 1976, yn dod i rym ar y diwrnod ar (tm)l iddo gael ei wneud.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a nodwyd fel "Map Gorchymyn Pen–y–bont ar Ogwr (Bracla a Choety Uchaf) 2006" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau 1976;

(**1**) 1972 p.70.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1.

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd)(**3**);

Newid Ffiniau Cymunedau

3.—(1) Gwahenir y rhannau hynny o Gymuned Coety Uchaf a ddangosir fel ardaloedd rhesog "a"ar y map ffiniau oddi wrth y gymuned honno ac maent yn ffurfio rhan o gymuned Bracla.

(2) Gwahenir y rhan honno o gymuned Bracla a ddangosir fel ardal resog "b" ar y map ffiniau oddi wrth y gymuned honno ac mae'n ffurfio rhan o gymuned Coety Uchaf.

Newidiadau i Ffiniau Wardiau

4.—(1) Newidir ffiniau Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety yng Nghymuned Coety Uchaf fel eu bod yn cyfateb â'r ffin gymunedol newydd.

(2) Newidir y ffin rhwng Ward Gymunedol Pendre a Ward Gymunedol Coety yng nghymuned Coety Uchaf fel y dangosir ar y map ffiniau ac a nodir fel "Ffin y Ward Gymunedol Newydd."

Newidiadau Canlyniadol i Adrannau Etholiadol

5. Newidir ffiniau adrannau etholaethol Pendre, Coety a Bracla i gyfateb â'r ffin gymunedol newydd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sue Essex
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth a Gwasanaethau Cyhoeddus

26 Mawrth 2006

(**3**) O.S. 1976/246 fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn.